Gwasanaethu'r gymuned | Pobl | Ymdrechu dros ragoriaeth | Amrywiaeth a chynhwysiant

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# ARWEINYDD YSTADAU A CHYFLEUSTERAU

**Adran Cyfleusterau**
**Parhaol, 37 awr yr wythnos GTAGC Gradd 12 - £55,522 i £58,673 y flwyddyn**

**Llunio dyfodol ystâd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru**

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn chwilio am Arweinydd Ystadau a Chyfleusterau profiadol a blaengar i chwarae rhan ganolog wrth reoli a datblygu ein portffolio amrywiol o adeiladau, safleoedd gweithredol a gweithleoedd ledled Gogledd Cymru.

Mae hwn yn gyfle cyffrous i arwain y gwaith o sefydlu swyddogaeth Rheoli Ystadau a Chyfleusterau mewnol newydd ar ôl cwblhau'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Heddlu Gogledd Cymru ym mis Mawrth 2027. Byddwch yn chwarae rôl allweddol wrth ddylunio a datblygu'r gwasanaeth, adeiladu tîm perfformiad uchel, a sicrhau bod ein hadeiladau a'n gweithleoedd yn parhau i fod yn ddiogel, yn cydymffurfio ac yn addas i'r diben.

Fel prif weithiwr proffesiynol yr Awdurdod ar gyfer rheoli ystadau a chyfleusterau, byddwch yn darparu arweinyddiaeth strategol a gweithredol ar draws ein portffolio eiddo amrywiol, gan yrru gwelliant parhaus, cefnogi amcanion cynaliadwyedd a sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion statudol a rheoleiddiol.

**Amdanoch chi**
Rydym yn chwilio am weithiwr proffesiynol llawn cymhelliant a phrofiadol sy'n gallu cyfuno arbenigedd technegol gyda sgiliau arweinyddiaeth a rheoli newid cryf.
Byddwch yn gallu dangos:

- Gradd mewn disgyblaeth berthnasol fel Arolygu Adeiladu, Rheoli Cyfleusterau neu Beirianneg Gwasanaethau Adeiladu.
- Aelodaeth o gorff proffesiynol perthnasol (e.e. RICS, CIOB, IWFM neu CIBSE).
- Gwybodaeth a phrofiad o reoli ystadau a chyfleusterau.
- Profiad o gynllunio cylch bywyd asedau, rheoli cydymffurfiaeth a gwella gwasanaethau.
- Y gallu i arwain newid, datblygu timau a chyflawni canlyniadau.

I wneud cais, cwblhewch a chyflwynwch eich pecyn cais drwy e-bost i: recriwtio@tangogleddcymru.llyw.cymru

**Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais yw hanner dydd ar 27 Gorffennaf 2026**
**gyda chyfweliadau yn cael eu cynnal yn ystod Awst 2026**

*Bydd y dyddiad cau yn cael ei gadw'n llym ac ni fydd unrhyw eithriadau yn berthnasol.*

disability confident EMPLOYER

Cyflogwr Cyflog Byw ydym ni

HYRWYDDO CYNHWYSIANT helpu cael gwared ar rwystrau | PROMOTING INCLUSIVITY helping to remove barriers

ARMED FORCES COVENANT CYFAMOD Y LLUOEDD ARFOG – EMPLOYER RECOGNITION SCHEME CYNLLUN CYDNABOD CYFLOGWYR – GOLD AWARD 2022 GWOBR AUR 2022

Live Fear Free Helpline
0808 80 10 800
call • text • live chat • email
Home shouldn't be a place of fear
Help is available 24/7

Cefnogwyr Pride Tân
Fire Pride Allies

Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bob rhan o'r gymuned. Rydym wedi ymrwymo i gyfle cyfartal i'r holl staff ac anogir ceisiadau gan unigolion waeth beth fo'u hoedran, anabledd, rhyw, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred a phriodas a phartneriaethau sifil.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau yn Gymraeg a Saesneg a byddwn yn ymateb yn gyfartal i'r ddau a byddwn yn ymateb yn eich iaith o'ch dewis yn ddi-oed. Bydd ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.